


Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

ADRODDIAD BLYNYDDOL
CYFARWYDDWR
GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL A THAI
2019-2020



CREU CYMUNEDAU GOFALGAR
CREATING CARING COMMUNITIES



Cynnwys

Tudalen

1	Cyflwyniad	2
2	Crynodeb perfformiad y cyfarwyddwr	3
3	Sut y mae pobl yn llywio ein gwasanaethau?	5
4	Hyrwyddo a gwella lles y bobl yr ydym yn eu helpu	8
	Safon Ansawdd 1	8
	Safon Ansawdd 2	10
	Safon Ansawdd 3	12
	Safon Ansawdd 4	14
	Safon Ansawdd 5	16
	Safon Ansawdd 6	18
5	Sut yr ydym yn gweithredu	21

Mae adroddiad blynyddol 2019/20 ar gael yn llawer hwyrach nag y byddai fel arfer, wrth reswm. Yn sgil pandemig y Coronafeirws a gychwynnodd ar ddechrau 2020, caniatwyd i awdurdodau lleol ohirio'r adroddiad a dyna pam y mae'r adroddiad hwn yn cael ei ysgrifennu ar yr un pryd ag adroddiad 2021.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r heriau a wynebwyd yn 2019/20 a'n hymateb i'r heriau hyn. Hefyd, mae'n disgrifio ein blaenoriaethau wrth gamu ymlaen i 2020/21. Bydd ein cynnydd o ran y blaenoriaethau hyn yn rhan o'm hadroddiad ar gyfer 2020/21.

Yn ystod misoedd cyntaf 2020, daeth yn amlwg bod rhaid i'n gwasanaethau roi blaenoriaeth i ymateb i'r pandemig ac mae hynny wedi cael effaith amlwg ar ein gallu i ymateb i rai o'r blaenoriaethau hyn.



Dave Street

*Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau
Cymdeithasol a Thai*

2

Crynodeb perfformiad y cyfarwyddwr

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad sylweddol o fframwaith mesur perfformiad Gofal Cymdeithasol. Mae Cyngor Caerffili wedi ymgysylltu'n llawn o ran cefnogi'r adolygiad hwn gyda swyddogion allweddol yn mynd i weithdai a chyfarfodydd y grŵp llywio. Gan nad oes fframwaith perfformiad cenedlaethol, rydym yn parhau i gasglu gwybodaeth leol am berfformiad a nodir isod fanylion rhai mesurau allweddol ar gyfer y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn ynghyd â gwybodaeth gymharol am berfformiad mewn blynyddoedd blaenorol.



GWASANAETHAU OEDOLION

MESUR	CANLYNIAD 2017/18	CANLYNIAD 2018/19	CANLYNIAD 2019/20
% yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd cyn pen 7 niwrnod.	93	100	100
Yr amser, ar gyfartaledd, y caiff oedolion (65 oed neu'n hŷn) gymorth mewn cartrefi gofal preswyl (wythnosau).	158	174	215
Oedran, ar gyfartaledd, oedolion sy'n mynd i gartref gofal preswyl.	83	83	86
% yr oedolion sydd wedi cael cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth ers 6 mis.	90	95	98



GWASANAETHAU PLANT

MESUR	CANLYNIAD 2017/18	CANLYNIAD 2018/19	CANLYNIAD 2019/20
% yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant oddi mewn i'r terfynau amser statudol.	93	90	94
% y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar Gofrestrau Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol	2	6	4
Yr amser, ar gyfartaledd, y bydd plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, yn ystod y flwyddyn.	268	268	230
% y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi newid 1 neu fwy o ysgolion yn ystod cyfnod neu gyfnodau o fod yn derbyn gofal, nad oedd yn sgil trefniadau trosglwyddo, yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth.	10	7	12
% y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn.	11	9	11



PLANT SY'N GADAEI GOFAL

MESUR	CANLYNIAD 2017/18	CANLYNIAD 2018/19	CANLYNIAD 2019/20
% yr holl bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal.	51	51	50
% yr holl bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal.	61	45	53

Sut y mae pobl yn llywio ein gwasanaethau?

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili wedi ymrwmo i sicrhau bod pobl yn gallu lleisio'u barn, boed am y modd y caiff gwasanaethau eu datblygu a'u darparu yn y dyfodol neu am wasanaeth y maent yn ei gael ar hyn o bryd. Gwneir hynny mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys cynnal arolygon, prosesau monitro contractau, ymweliadau unigolyn cyfrifol, cwynion a chanmoliaeth, digwyddiadau ymgynghori ac adborth gan arolygwyr.

Mae ein holl wasanaethau a reoleiddir wedi'u cofrestru bellach o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA) 2016. Cwblhawyd y gwaith pwysig hwn yn unol â'r amserlenni statudol.

Mae'r gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod wedi cynnwys:

Gwasanaethau Plant

- Arolygiad thematig o wasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal.

Trawsgyfarwyddiaethol

2019/20

- Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau Diogelu Corfforaethol yr Awdurdod Lleol.
- Arolygiad thematig o drefniadau Diogelu Oedolion.



Roedd adroddiadau'r arolygiadau uchod yn gadarnhaol ar y cyfan ac er eu bod nhw, wrth reswm, yn nodi meysydd i'w datblygu ymhellach yn

hytrach na meysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth, roeddent i gyd yn cydnabod y cynnydd da sy'n cael ei wneud ar draws y meysydd gwasanaeth. Gellir gweld yr holl adroddiadau ar wefan yr Arolygiaeth: arolygiaethgofal.cymru/ein-hadroddiadau

Daliwyd ati i gynnal cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Tîm Uwch-reolwyr a'r Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol broses statudol y mae'n rhaid ei dilyn pan fydd rhywun yn anafdlon ar ein gwasanaethau ac yn dymuno gwneud cwyn. Ceisiwn sicrhau bod cwynion yn cael eu trafod yn gyflym ac yn effeithiol ac o ganlyniad, mae modd datrys y mwyafrif o faterion mor fuan â phosibl.

Yn ystod 2019/20, daeth 144 o gwynion Cam 1 i law'r Gyfarwyddiaeth. Datryswyd y mwyafrif o'r cwynion wrth fodd y cwsmer yng Ngham 1 a'r ymdrechion a wneir i ddatrys cwynion yng Ngham 1 y broses sydd i gyfrif am hyn.

Mae'r Tîm Cwynion a Gwybodaeth yn cofnodi a yw cwynion yn cael eu cadarnhau, eu cadarnhau yn rhannol neu heb eu cadarnhau. Mae hyn yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth i nodi unrhyw themâu a thueddiadau o'r canfyddiadau er mwyn gwella arferion yn y dyfodol a nodi unrhyw achosion prin o arfer gwael y gall fod angen rhoi sylw iddynt.

Yn ystod 2019/20 daeth 144 o Gwynion Cam 1 i law ac ymdriniwyd â 5 Cwyn Cam 2

O'r 144 o gwynion a ddaeth i law yng Ngham 1 yn 2019/20, nodwyd y canlyniadau canlynol:

- **Caewyd 16, yn sgil datrys y materion yn gynnar neu eu cyfeirio at brosesau eraill, e.e. prosesau cyfreithiol.**
- **Cadarnhawyd 9 cwyn.**
- **Cadarnhawyd 14 cwyn yn rhannol.**
- **Ni chadarnhawyd 105 o gwynion.**

Yn ystod 2019/20, daeth 5 cais i law am symud cwynion ymlaen i ymchwiliad ffurfiol Cam 2, sy'n ostyngiad lleiaf o'r flwyddyn flaenorol pan oedd 6 ymchwiliad Cam 2. Roedd pob un (100%) o'r 5 ymchwiliad Cam 2 yn ymwneud â'r Gwasanaethau Plant.

Ar ben hynny, cysylltodd 11 o'n cwsmeriaid ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n ostyngiad bach o'r 14 cwsmer yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn deall pwysigrwydd dysgu gwersi yn sgil cwynion a sylwadau ac mae'n cydnabod bod angen rhoi'r un pwyslais ar ddysgu yn sgil canlyniadau cadarnhaol.

Caiff timau eu canmol ar ffurf cardiau diolch, llythyrau a negeseuon e-bost ac anfonir y rhain i'w cofnodi gan y Tîm Cwynion a Gwybodaeth. Yn 2019/20 daeth 20,281 o ganmoliaethau i law. Roedd 228 (81%) o'r rhain yn ymwneud â'r Gwasanaethau Oedolion a 53 yn ymwneud â'r Gwasanaethau Plant. Ar ben hynny, mae ymatebion i'r arolwg blynyddol mewn rhai meysydd gwasanaeth yn arwain at adborth cadarnhaol y gellir ei ddefnyddio i fesur llwyddiant y Gyfarwyddiaeth yn y meysydd hynny.



4 Hyrwyddo a gwella lles y bobl yr ydym yn eu helpu

Safon Ansawdd 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni.

Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae staff Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Caerffili wedi'u hyfforddi i gynnal 'sgyrsiau ystyrion' gyda defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalyddion ynghylch yr hyn sy'n wirioneddol bwysig iddynt.

Mae 'sgyrsiau ystyrion' yn dechrau gyda staff y gwasanaeth y tro cyntaf y bydd rhywun yn cysylltu â ni. Mae'r sgyrsiau hyn yn canolbwyntio ar gryfderau pobl, ar weithio gyda phobl i adennill neu gynnal eu hannibyniaeth a defnyddio eu sgiliau a'u rhwydweithiau eu hunain i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir ganddynt lle bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Mae'n bwysig cydnabod mai gan weithwyr proffesiynol y daw'r mwyafrif o'r cysylltiadau â'r Gwasanaethau Plant ac o ganlyniad, nid yw'r sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig' yn gallu digwydd gyda'r plentyn a/neu'r teulu hyd nes y bydd asesiad Gofal a Chymorth wedi dechrau.

Egwyddor arweiniol i Wasanaethau Cymdeithasol Caerffili yw hyrwyddo a chynnal annibyniaeth. Ar gyfer y Gwasanaethau Plant, mae hyn yn golygu cefnogi teuluoedd i aros ynghyd ac i helpu plant yn eu cartrefi a'u

'Ces i gymorth gennych chi pan nad oeddwn i'n gwybod beth i'w wneud na ble i fynd... diolch o galon i chi!'

cymunedau lle bynnag y bydd yn ddiogel i wneud hynny. Mae hyn wedi'i ategu gan asesiadau prydlon o angen a datrysiadau creadigol yn cael eu hystyried er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Gall rhai teuluoedd fod â barn negyddol am y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ar y dechrau ond rydym yn sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u rhieni a'u gofalyddion yn chwarae rhan lawn yn y broses asesu a'u bod yn helpu i lywio eu cynllun gofal a chymorth a dylanwadu arno. Mae gweithio fel hyn yn helpu i wella'r berthynas dros amser.

'Rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus nawr diolch i'r cymorth rwy wedi'i gael.'

Mae gennym fynediad llawn at gronfa ddata llesiant dinasyddion genedlaethol o'r enw DEWIS fel y gall pobl gael gafael mewn gwybodaeth yn uniongyrchol o wefan yn hytrach na'u bod yn gorfod ffonio'r Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu siarad â rhywun proffesiynol pan fyddai'n well ganddyn nhw beidio. Mae gennym swyddog arweiniol penodedig i ddatblygu DEWIS ymhellach.

Er mwyn sicrhau bod ganddynt gyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau neu i leisio'u barn, mae Eiriolwr Annibynnol ar gael i bob plentyn a all roi cymorth iddynt mewn cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Rydym hefyd wedi datblygu Eiriolaeth Rhieni trwy waith partneriaeth a gyllidir gan raglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Cwblhawyd 98% o'n hasesiadau yn unol â'r amserlen statudol a chynorthwywyd 700 o blant i barhau i fyw gyda'u teuluoedd.

Yn ystod 2019/20, nid oedd 98% o'r oedolion a gafodd gyngor a chymorth gan y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto yn y 6 mis nesaf. Mae hon yn neges gadarnhaol gan ei bod yn awgrymu bod y cyngor a'r cymorth a roddwyd wedi helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth, eu dewis a'u rheolaeth.

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein gwelyau asesu yng nghartrefi preswyl Tŷ Clyd a Thŷ Iscoed. Mae'r gwelyau hyn yn helpu i atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn ddiangen ac yn eu galluogi i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn brydlon.

Mae cefnogi pobl i aros yn annibynnol neu i adennill eu hannibyniaeth yn amcan allweddol i bawb sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Sut yr aethom i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2019/20:

- Ymgorfforwyd rhaglen Cymunedau Tosturiol yng ngogledd y fwrdeistref, gyda staff a leolir mewn meddygfeydd yn mynychu cyfarfodydd Timau Amlddisgyblaeth ac yn rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth i unigolion. Cafwyd adborth gan bobl ynghylch effaith y rhaglen o ran teimlo'n llai ynysig.
- Sefydlwyd pwynt cyswllt unigol ar gyfer meddygon teulu ac atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol eraill i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r Paneli Gofod Lles.
- Ar y cyd â'r gwasanaeth Iechyd, sefydlwyd rhwydweithiau llesiant integredig ar draws y fwrdeistref i fapio'r holl adnoddau sydd ar gael i bobl. Cynhaliwyd sawl digwyddiad ymgysylltu â chymunedau, y trydydd sector a chysylltwyr cymunedol i gydgysylltu gwasanaethau er lles unigolion a chymunedau.



Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20?

- Ehangu prosiect cymunedau tosturiol ar draws y fwrdeistref gyfan.
- Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i alluogi staff i gael sgysiau gwahanol gyda phobl er mwyn deall y canlyniadau a ddymunir ganddynt yn well.

Safon Ansawdd 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol pobl.

Mae CBS Caerffili yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phobl a'n partneriaid i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc a bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni i'r dyfodol.

Mae Cyngor Caerffili yn bartneriaid gweithredol ym Mhartneriaeth Strategol Plant a Theuluoedd Gwent gyfan sy'n rhoi blaenoriaeth i ddatblygu dulliau integredig o gefnogi plant a phobl ifanc gan gynnwys cymorth therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal trwy ddatblygu, ar lefel ranbarthol, wasanaeth Fy Nghim Cymorth (Mhyst) yn y pum Awdurdod Lleol. Datblygwyd y gwasanaeth hwn yn wreiddiol gan Gyngor Caerffili yn 2017.

Gwasanaeth ymyrraeth therapiwtig amlddisgyblaethol yw MyST Caerffili sy'n cynorthwyo'r plant a'r bobl fwyaf heriol er mwyn atal lleoliadau rhag chwalu ac osgoi'r angen i leoli plant mewn darpariaeth breswyl ddrud y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol.

'Gyda MyST rwy wedi mynd yn ôl fyw gyda nhad-feddyliais i erioed y byddai hynny'n digwydd.'

Bu Gwasanaeth Trawma Ymlyniad Gwent gyfan yn cynnig cyngor, ymgynghori a hyfforddiant i dimau gwaith cymdeithasol Caerffili gyda'r nod o helpu plant a phobl ifanc i barhau i fyw gartref neu i barhau mewn lleoliadau maethu sefydlog.

Mewn ymateb i nifer bach o blant arbennig o heriol, rydym wedi prynu eiddo er mwyn datblygu ail Gartref Plant yn y Fwrdeistref Sirol ac wedi recriwtio tîm o staff. Bu'n rhaid defnyddio'r eiddo ar gyfer lleoliad brys ac felly mae'r gwaith adnewyddu wedi'i ddal yn ôl. Rhagwelir y bydd y cartref yn dod yn gwbl weithredol yn y flwyddyn sydd i ddod.

Ar draws y Gwasanaethau Oedolion, rydym yn parhau i ddatblygu ein Tîm Adnoddau Cymunedol sy'n cynnig ymateb cyflym i anghenion meddygol a chymdeithasol pobl. Ar ben hynny, cafodd y llwybr rhyddhau i asesu a ddatblygwyd gennym yn Ysbyty Ystrad Fawr ei gydnabod yn faes arfer da ar lefel genedlaethol. Mae'r Uned Ddata wrthi'n cynhyrchu fideo YouTube i hyrwyddo'r gwasanaeth ac adrodd hanesion pobl a fu'n defnyddio'r llwybr.

'Mae fy ngofalyddion yn fy nhrin â pharch ac urddas – mae hynny'n bwysig iawn i mi.'

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar nodi a datblygu gwasanaethau ar gyfer gofalmwyr er mwyn eu helpu yn eu rôl gofalu. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau yn ystod wythnos gofalmwyr, gwrandawyd ar yr hyn a ddywedodd gofalmwyr wrthym, datblygwyd safleoedd cyfryngau cymdeithasol a chanolbwyntiwyd ar ddigwyddiadau.

Rydym yn deall na fydd pobl am aros yn yr ysbyty yn hwy nag sydd raid. Felly, rydym wedi cynyddu nifer y darparwyr gofal cartref yn ein fframwaith i'n galluogi i drefnu mwy o becynnau gofal fel y gellir rhyddhau pobl o'r ysbyty i'w cartrefi cyn gynted ag y byddant yn teimlo'n ddigon da.

'Fyddden ni byth wedi gallu parhau i fyw gartref a chyda'n gilydd heb eich cymorth chi. Roeddech chi wedi gwrandao o ddifri arnon ni.'

Mae gan y Cyngor chwe chartref gofal preswyl i bobl hŷn sy'n eiddo iddo ac yn cael eu rhedeg ganddo. Mae pob un wedi mabwysiadu dull gweithredu Materion Gofal Dementia. Mae dau o'n cartrefi, sef Brodawl a Thŷ Iscoed wedi ennill 'statws glöyn byw', sef y nod arfer da a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae ein holl gartrefi wedi'u cofrestru bellach o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol yn ôl y gofyn.

Ar gyfartaledd, oedran yr oedolion sy'n symud i gartref preswyl oedd 86 oed.

Yr amser ar gyfartaledd y bydd oedolion (65 oed neu'n hŷn) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl yw 215 o ddiwrnodau, sy'n

amlygu ein hymrwymiad i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi cyhyd ag y bo modd. Rydym yn parhau i weithio gyda'n cyd-weithwyr iechyd mewn timau iechyd meddwl integredig i ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir i hyrwyddo llesiant emosiynol ac iechyd meddwl pobl.

Sut yr aethom i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2019/20:

- Datblygwyd y model Rhyddhau i asesu i edrych ar lwybrau gwahanol ar gyfer pobl gyda ffocws penodol ar bobl yn yr Uned Pobl Eiddil Oedrannus yn Ysbyty Ystrad Fawr er mwyn osgoi achosion o bobl yn cael eu derbyn i ward yn ddiangen. Sefydlwyd perthnasoedd gwaith ardderchog gyda'r arweinydd meddygol, mae staff yn rhan o rowndiau bwrdd dyddiol, ac aed â phobl adref yn llwyddiannus gyda gwaith dilynol heb ddarparu gwasanaethau. Cydnabu'r Uned Gyflwyno fod hwn yn arfer da.
- Cafwyd cyllid gan ICF i sicrhau bod y cynllun yn parhau ar draws ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a chynhelir arolwg annibynnol gan IPC i werthuso effeithiolrwydd prosiectau'r rhaglen.
- Mae gwaith i adnewyddu eiddo er mwyn datblygu ail gartref plant yn y Fwrdeistref wedi dechrau.
- Cytunodd Caerffili i roi cartref i swyddi arweinwyr rhanbarthol Gwasanaeth Mhyst ar ran Partneriaeth Plant a Theuluoedd Gwent.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21:

- Ehangu ethos y Cartref yn Gyntaf i gynnwys Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful.

- Sicrhau cyllid i ehangu'r Cartref yn Gyntaf i gwmpasu Ysbyty Athrofaol y Faenor.
- Gweithredu'r 4 llwybr y cytunwyd arnynt ar lefel genedlaethol o ran Rhyddhau i Asesu er mwyn gwella canlyniadau i unigolion.
- Ehangu gwasanaeth MyST i Gasnewydd er mwyn cwblhau'r datblygiad rhanbarthol.

Safon Ansawdd 3: Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yw'r peth pwysicaf y bydd yr Awdurdod yn ei wneud. Oherwydd hynny, mae'r Awdurdod wedi sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth gorfforaethol ac yn gyfrifoldeb corfforaethol. Caiff Bwrdd Diogelu trawsgyfarwyddiaeth ei arwain gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Plant a'i gadeirio gan yr Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae diogelu yn fater i bawb, ac mae'n thema allweddol trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyfan. O ganlyniad, rydym yn sicrhau bod ein staff, ein

contractwyr a'n partneriaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn.

Mae gennym Bolisi Diogelu Corfforaethol ac mae rhaglen hyfforddi a chynyddu ymwybyddiaeth ar waith. Mae gan bob maes gwasanaeth Swyddog Diogelu Dynodedig ac mae grwpiau datblygu arfer yn cyfarfod yn rheolaidd i gefnogi'r swyddogion hyn. Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cynhyrchu Adroddiad Blynnyddol ar gyfer yr Aelodau Etholedig. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru arolwg o'r trefniadau Diogelu Corfforaethol yn y Cyngor yn ystod 2019 a defnyddiwyd y canfyddiadau i ddatblygu rhaglen waith i'w gweithredu gan y Bwrdd.

Caiff y trefniadau ar gyfer gwella polisiâu, gweithdrefnau ac arferion diogelu ar draws y rhanbarth eu harwain gan Fyrddau Diogelu Deddwyrain Cymru (SEWSCB a GWASB) a'r Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Cefnogir y byrddau hyn gan Uned Fusnes wedi'i hariannu gan y partneriaid statudol a'i chynnal gan Gyngor Caerffili. Mae gan y Byrddau strwythur llywodraethu clir a chefnogir eu gwaith gan set o is-grwpiau. Mae Cyngor Caerffili yn bartner gweithredol ar y byrddau hyn.



Ein perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf yn y maes diogelu:

- Cwblhawyd **100%** o'r ymholiadau amddiffyn oedolion cyn pen 7 niwrnod
- Cynhaliwyd **98%** o'r Cynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol yn unol â'r amserlen statudol.
- Cynhaliwyd **98%** o'r holl Adolygiadau Amddiffyn Plant yn unol â'r amserlen.
- Mae gweithiwr cymdeithasol penodedig gan **100%** o'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- Mae gweithiwr cymdeithasol penodedig gan **100%** o'r plant sy'n derbyn gofal.

Cytunodd y Byrddau i sefydlu un Bwrdd Diogelu ar gyfer Oedolion a Phlant yn ystod 2019/20. Mae hyn wedi gwella'r dysgu ar y cyd ar draws y ddau sector a bu'n fodd i ddatblygu gwell cydweithio ar draws y rhanbarth.

'Wnes i ddim sylweddoli ar y pryd ond roedd popeth wnaethoch chi wedi fy nghadw i'n ddiogel a'm hamddiffyn.'

Yn y Cyngor, y Gwasanaethau Plant sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion. Er bod y meysydd gwasanaeth yn rhai unigol, maent oll wedi'u rheoli gan un Rheolwr Gwasanaeth ac o ganlyniad, mae adnoddau a chadernid y gwasanaeth wedi gwella. Caiff penderfyniadau eu gwneud ynghylch pob cyfeiriad cyn pen 24 awr, gan sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gweithdrefnau statudol. Adolygwyd y gweithdrefnau cenedlaethol presennol a disgwylir iddynt gael eu hail-lansio yn 2020.

Rydym yn parhau i ddarparu hyfforddiant ynghylch 'Gofyn a Gweithredu' i'r holl staff rheng flaen er mwyn iddynt fedru adnabod arwyddion cam-drin domestig.

'Roeddwn i'n arfer teimlo fel methiant - ond mae hynny wedi newid nawr, diolch i chi'

Rydym yn monitro'r gwasanaethau a gomisiynir gennym yn ofalus iawn o ran ansawdd y gofal y maent yn ei ddarparu ac mae hyn yn cynnwys gofal cartref, byw â chymorth a chartrefi gofal hirdymor.

Sut yr aethom i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2019/20:

- Gan adeiladu ar lwyddiant uno'r Grŵp Adolygu Achosion ac Arferion Diogelu i gwmpasu Oedolion a Phlant, mae Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu yn cefnogi uno'r Bwrdd Oedolion a'r Bwrdd Plant. Dechreuodd y Cyd-fwrdd newydd sengl weithredu'n llawn yn ystod y flwyddyn.
- Arweiniodd yr argymhellion o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r trefniadau Diogelu Corfforaethol at ddatblygu cynllun gweithredu cadarn sy'n dal i gael ei fonitro gan y Bwrdd.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21:

- Ymgorffori Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru Gyfan.
- Datblygu System Rheoli Dysgu ar gyfer y Cyngor cyfan i gofnodi pwy sydd wedi derbyn a chwblhau hyfforddiant diogelu.
- Cyflwyno Offeryn Hunanasesu Diogelu ar gyfer meysydd gwasanaeth.

Safon Ansawdd 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

Un o flaenoriaethau allweddol y Gwasanaethau Plant a'r Grŵp Rhianta Corfforaethol yw cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal i wireddu eu llawn botensial a sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Mae gan Gyngor Caerffili hanes o lwyddo i helpu pobl ifanc i fynd ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch ac mae nifer o'r rhai sy'n gadael gofal wedi ennill graddau a chymwysterau tebyg.



'Yr ysgol oedd yr unig beth sefydlog i mi ac ro'n i wrth fy modd yn gallu aros yno.'

Mae 50% o'r bobl ifanc sy'n gadael gofal yn dal i fod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal.

Rydym yn cydnabod ei bod hi'n bwysig i bobl fod yn fwy hunangynhaliol a chynnal eu hannibyniaeth er mwyn eu galluogi i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas ac yn eu cymuned leol.

Mae'r awdurdod lleol yn cyflogi nifer o Gysylltwyr Cymunedol sydd wedi datblygu cronfa ddata o weithgareddau sydd ar waith mewn ardaloedd lleol fel bod modd iddynt gyfeirio pobl neu fynd â nhw i glybiau a gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt, fel 'gwau a chlonc', dosbarthiadau celf, grwpiau crefft, siediau dynion a chlybiau cinio.





‘Doedd gen i ddim syniad ble i ddechrau cael cymorth i fy mam - ac yna fe wnaethoch chi fy helpu.’

Rydym wedi ymgorffori system wybodaeth DEWIS er mwyn i bobl allu cael gwybodaeth drostynt eu hunain 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos.

‘Wyddoch chi ddim faint mae’n ei olygu i wybod ei bod hi’n cael gofal pan fydd raid i mi fynd allan.’

Mae cefnogi gofalwyr yn allweddol. Datblygwyd system cyfnewid sgiliau gofalwyr sy’n mynd o nerth i nerth. Mae gofalwyr yn cysylltu â’i gilydd ac yn cyfnewid sgiliau, er enghraifft, roedd un gofalydd wedi gwneud gwaith smwddio i un arall yn gyfnewid am wasanaeth gwarchod er mwyn gallu mynd i barti pen-blwydd.

Sut yr aethom i’r afael â’n blaenoriaethau yn 2019/20:

- Defnyddiwyd cyllid grant ICF i greu swydd Cysylltwr Cymunedol ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Tîm Cymorth Dwys sy’n cynnig gwasanaethau ataliol i blant yr aseswyd eu bod ‘ar ymyl gofal’.
- Defnyddiwyd DEWIS i gofnodi a hyrwyddo’r adnoddau sydd ar gael i alluogi pobl i gyflawni eu canlyniadau eu hunain.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21?

- Ymgorffori Gwasanaeth Cyfarfodydd Teulu yn y Tîm Cymorth Dwys i helpu teuluoedd i nodi atebion i faterion y gallent fod yn eu hwynebu a lleihau nifer y plant sy’n gorfod derbyn gofal.
- Hyrwyddo a datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl mewn cymunedau haenog.

Safon Ansawdd 5: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.

Rydym am gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion i fod mor gymdeithasol weithgar â phosibl er mwyn iddynt deimlo bod modd iddynt wneud penderfyniadau drostynt eu hunain a chadw eu hunain yn ddiogel.

Rydym wedi ymgorffori’r “sgyrsiau am yr hyn sy’n bwysig” ar draws y Gyfarwyddiaeth ac wedi hyfforddi’r staff i wella eu sgiliau o ran canolbwyntio ar ganlyniadau, cryfderau ac asedau pobl, eu teuluoedd a’u rhwydweithiau.

Rydym yn cydnabod bod sicrhau bod gan bobl berthnasoedd boddhaus gyda’r rhai y maent yn agos atynt yn bwysig iawn i’w lles.

‘Mae’r Amser Teulu (cyswllt) yn digwydd o dan oruchwyliaeth ac rwy’n deall pam yn llwyr ac rwy mor ffodus i gael y cyfle.’

I blant sy'n derbyn gofal, mae cynnal cyswllt gyda'u teuluoedd a'u cymunedau cartref yn bwysig iawn ac mae'r Gwasanaethau Plant yn gwneud popeth y gallant i sicrhau bod trefniadau cyswllt yn bodloni anghenion pawb dan sylw a'u bod yn ddigwyddiadau cadarnhaol.

Yn y Gwasanaethau Oedolion, rydym yn parhau i recriwtio gofalwyr i'n Cynllun Cysylltu Bywydau i'n galluogi i gynnig mwy o ddewis a chynyddu nifer y lleoliadau y gallwn eu cynnig mewn cartrefi teuluol i bobl o bob grŵp o gleientiaid. Rhyddhawyd arian hefyd er mwyn caniatáu addasiadau i gartrefi pobl, fel rampiau a chawodydd i alluogi pobl i barhau i fod yn annibynnol. Rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth iechyd i ddatblygu gwasanaeth pwrpasol ar gyfer pobl sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl a fydd yn elfen neilltuol o'r ddarpariaeth.

Rydym wedi parhau i hwyluso Grwpiau Gofalwyr ar draws y fwrdeistref sirol i alluogi gofalwyr i gyfarfod yn gymdeithasol dros baned. Mae ein Tîm Gofalwyr yn mynd i lawer o ddigwyddiadau i hyrwyddo eu gwasanaeth ac mae cydnabyddiaeth wedi'i rhoi i'w hymdrechion.

Gyda'n partneriaid, diwygiwyd y Strategaeth ar gyfer Anableddau Dysgu ac yn ystod cyfarfodydd ymgynghori gyda'n grwpiau dinasyddion, dywedwyd wrthym fod perthnasoedd yn bwysig iawn iddynt. Mae hyn bellach yn rhan sylfaenol o'r sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' ac mae adolygiadau yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

Sylweddolwyd bod mwy o waith i'w wneud o ran cefnogi perthnasoedd a daeth hyn yn flaenoriaeth i ni wrth symud ymlaen o ran helaethu clwb Fy Ffrindiau.

Yn y Gwasanaethau Plant, ble bynnag y bydd hi'n bosibl ac yn ddiogel i wneud hynny, byddwn yn sicrhau bod plant yn cael eu lleoli mor agos â phosibl i'w cymunedau cartref er mwyn cefnogi eu cysylltiadau â'u teulu a'u cartref.

Mae galw cynyddol arnom i recriwtio mwy o ofalwyr maeth i fodloni anghenion plant a phobl ifanc. Rydym yn parhau i gynnal ymgyrch recriwtio ar y radio ac mae hynny wedi'n helpu i gynyddu nifer yr ymholiadau a gawn a'r asesiadau yr ydym yn eu cynnal. Rydym yn ymgysylltu'n llawn â datblygiadau'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol sy'n edrych ar ddull Cymru gyfan o ddarparu gwasanaethau recriwtio, cadw a chefnogi gofalwyr maeth.

Roedd recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yn Nhimau Ardal y Gwasanaethau Plant yn dal i fod yn heriol ac aed ati yn ystod y flwyddyn i adolygu'r taliad atodol ar sail y farchnad a gyflwynwyd er mwyn denu ymgeiswyr.

Sut yr aethom i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2019/20:

- Daliwyd ati i fonitro sefyllfa recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol ar hyd y flwyddyn. Adolygwyd y taliad atodol ar sail y farchnad a chytunwyd bod angen iddo barhau.
- Defnyddiwyd cyllid grant ICF i ehangu'r Gwasanaeth Cysylltu Bywydau, gan recriwtio mwy o ofalwyr, a chafwyd adborth cadarnhaol iawn.
- Adolygwyd y Strategaeth Anableddau Dysgu a nodwyd llysgenhadon i hyrwyddo'r gwaith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach ar draws y sector.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21?

- Datblygu elfen prosiect iechyd meddwl Cynllun Cysylltu Bywydau De-ddwyrain Cymru ac ehangu'r ardal beilot o Gasnewydd i Gaerffili.
- Hyrwyddo aelodaeth Fy Ffrindiau i bobl ag anableddau dysgu i ddatblygu perthnasoedd a chyfeillgarwch personol.
- Parhau â'r cynllun secondiad i staff sy'n ymgymryd â Gradd Gwaith Cymdeithasol.

Safon Ansawdd 6: Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i sicrhau llesiant economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety sy'n bodloni eu hanghenion.

Mae'r Gwasanaethau Plant yn cynnig cymorth gweithredol i alluogi plant sy'n derbyn gofal i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant gan gynnig cymorth unigol pan fo angen.

Caiff plant a phobl ifanc eu hannog i wneud y defnydd gorau o'u hamser hamdden a chânt eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned pan fydd hynny'n bosibl.

**'Rhoesoch eich ffydd ynof fi
drwy roi fy lle fy hun i mi a
chyda'ch cymorth chi, rwy wedi
llwyddo i ddal ati.'**

Mae gan y Gwasanaethau Plant brotocol gwaith sefydledig gyda'r gwasanaeth Tai i sicrhau y gallwn gynnig cymorth priodol i bobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd. Mae gennym amrywiaeth o lety â chymorth ar gael gan gynnwys darpariaeth a rennir, llety â chymorth a thenantiaethau â chymorth. Rydym yn parhau i adolygu'r ddarpariaeth hon gan chwilio am gyfleoedd pellach ar gyfer datblygiadau newydd.



Mae'r perfformiad allweddol yn cynnwys:

- Mae gan **100%** o blant sy'n derbyn gofal gynllun ar gyfer lleoliad parhaol erbyn yr ail Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal (cyn pen 4 mis ar ôl dechrau derbyn gofal).
- Mae gan **100%** o'r bobl ifanc sy'n gadael gofal weithiwr penodedig i'w cynorthwyo ac rydym yn cadw mewn cysylltiad â 100% o'r bobl ifanc hyn nes eu bod yn 21 oed.
- Roedd **50%** o'r bobl ifanc sy'n gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal.

Yn y Gwasanaethau Oedolion, pan edrychwyd o'r newydd ar y Strategaeth Anableddau Dysgu, cawsom wybod yn glir fod lle'r oedd pobl yn byw yn bwysig iawn iddynt. Roeddent am fod yn annibynnol gyda rhywfaint o gymorth. Gan wrando ar y neges hon, agorwyd cyfres o fflatiau yn Heol Ashfield a oedd yn galluogi pobl i gael eu drws ffrynt eu hunain a chymorth wedi'i dargedu pan fyddai ei angen arnynt.

Rydym yn gweithio gyda'n cyd-weithwyr yn y gwasanaeth Tai i adolygu'r llety presennol sydd ar gael gennym i weld a oes modd ei ddefnyddio mewn ffordd wahanol er mwyn rhoi mwy o ddewis i bobl.

'Maen nhw'n gwneud i mi deimlo'n gyfartal ac yn un o'r teulu - mae'n wych!'

Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu cymunedau sy'n deall dementia er mwyn cefnogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau bywyd pob dydd fel siopa, mynd i'r banc a bwyta allan. Byddwch yn gweld arwyddion deall dementia mewn sefydliadau lleol a nifer o bobl sy'n gwisgo'r bathodyn blodyn glas i ddangos eu bod wedi cael hyfforddiant cyfaill dementia.

Efallai hefyd y gwelwch nifer o arddangosiadau a themâu gwahanol sy'n adlewyrchu bywydau blaenorol pobl. Mae'r rhain yn newid yn rheolaidd ac yn gallu adlewyrchu digwyddiadau'r presennol. Mae'r cartrefi bellach wedi'u rhannu'n unedau tai bychan ac mae gan bob un ei dîm o staff fel eu bod yn gallu dod i adnabod y preswylwyr yn iawn.

Mae amgylchedd ffisegol rhai o'r cartrefi hefyd wedi newid a chyflwynwyd lliwiau sylfaenol sy'n adlewyrchu dewis pobl ar gyfer drws eu hystafell wely ac mae'r ardaloedd cyffredin yn oleuach ac yn fwy clir.

'Mae'r staff yn fy annog i barhau i wneud cymaint ag y gallaf drosof fy hun ond mae'n dda gwybod eu bod nhw yno os bydd eu hangen arnaf'

Gyda'n partneriaid, rydym wedi cynnal peilot i ehangu ein Cynllun Cysylltu Bywydau i edrych ar fenter iechyd sy'n darparu lleoliadau gyda theuluoedd, sy'n atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty a/neu yn hwyluso eu rhyddhau o'r ysbyty i gartref teuluol. Mae hyn yn galluogi pobl i gael amser i wella, cael mwy o ymyriadau

therapi a derbyn asesiad o'u hanghenion mewn lleoliad mwy priodol. Rydym wedi ymrwymo i'r model gwahanol hwn o lety.

Sut yr aethom i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2019/20:

- Defnyddiwyd ICF gan Awdurdodau Lleol Gwent i ddatblygu gwasanaethau ail-alluogi i bobl sy'n colli eu cof a/neu i bobl â dementia. Penderfynodd Caerffili benodi Nyrs Seiciatrig Gymunedol a Swyddog Cymorth Gofalwyr ac mae'r ddau wedi'u penodi.
- Cyflwynwyd cais llwyddiannus am gyllid Cyfalaf ICF er mwyn prynu eiddo a'i ddatblygu yn drydydd cartref preswyl i blant yn y Fwrdeistref.

- Nodwyd datblygwr eiddo posibl sy'n arbenigo mewn llety wedi'i addasu ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal fel dewis arall yn lle defnyddio llety gwely a brecwast ac mae'n chwilio am eiddo yn y Fwrdeistref.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20?

- Datblygu fflatiau Heol y Felin yn llety byw'n annibynnol i oedolion ag anableddau.
- Gwneud cais i Gronfa Her Caerdydd am gyfleoedd cyflogi i bobl ag anableddau dysgu.
- Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau rhanbarthol ar gyfer darpariaeth breswyl a rennir ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu argyfwng.



5

Sut yr ydym yn gweithredu

Ein gweithlu a sut yr ydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol

Ein staff yw ein hased mwyaf; mae gweithlu medrus a brwdfrydig yn hanfodol i ddiogelu a chynorthwyo pobl sy'n agored i niwed, hybu annibyniaeth a gwella darpariaeth gwasanaethau. Mae sicrhau bod ymarferwyr ar y rheng flaen a rheolwyr yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda yn allweddol i lwyddiant ein gwasanaeth. Mae ein gweithlu yn gymharol sefydlog ac yn llwyddo i gadw staff yn dda. Fodd bynnag, rydym yn parhau i wynebu heriau o ran recriwtio i dimau penodol yn y Gwasanaethau Plant ac estynnwyd cymhelliad y Taliad Atodol ar Sail y Farchnad.

Mae gennym Dîm Datblygu'r Gweithlu ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a nhw sy'n gyfrifol am ddarparu strategaeth hyfforddiant a datblygiad sy'n cefnogi cyfleoedd datblygu i staff ar bob lefel yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu gweithlu'r sector gofal cyfan. Mae'r sector hwn yn cyflogi mwy na 3,000 o staff gyda rhyw 50%

o'r rhain yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol a 50% yn cael eu cyflogi gan y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae rheoli'r gyllideb yn un o swyddogaethau craidd y Timau Rheoli Is-adrannol a'r Tîm Uwch-reolwyr ac mae Rheolwr y Gwasanaethau Ariannol yn aelod o'r Tîm Uwch-reolwyr. Caiff adroddiadau ar y gyllideb eu trafod yn rheolaidd yng nghyfartaledd y timau hyn ac mae'r timau rheoli hyn yn aelodau allweddol yn y gwaith o ddatblygu strategaeth ariannol y Gyfarwyddiaeth.

Mae dadansoddiad o'r gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn dangos bod gwariant Caerffili ar Wasanaethau Plant, Oedolion ag Anableddau Dysgu ac Oedolion 65+ oed yn llai na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae'r gwariant ar Oedolion ag Anableddau Corfforol ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru ond mae'r gwariant ar Oedolion ag Anghenion Iechyd Meddwl yng Nghaerffili tua 56% yn uwch na chyfartaledd Cymru.



Mae'r cynnydd mwyaf arwyddocaol mewn galw yn 2019/2020 wedi parhau i fod yn y meysydd canlynol:

- **Y sector gofal preswyl annibynnol i blant.**
- **Gofal nyrsio i bobl hŷn.**
- **Gofal cartref i helpu pobl yn eu cartrefi eu hunain.**
- **Gofal preswyl a nyrsio i bobl ag anableddau dysgu.**

Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethiant ac atebolrwydd

Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi pwyslais allweddol ar weithio mewn partneriaeth ac i'r perwyl hwn, mae'r awdurdod bellach yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Fwyaf ynghyd â'r pedwar awdurdod lleol arall yng Ngwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dylanwadu'n sylweddol ar waith y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerffili, yn enwedig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ers ei sefydlu, mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi cynhyrchu:

- **Cynllun Ardal.**
- **Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad sy'n disgrifio'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd a'r gwasanaethau y gall fod eu hangen yn y dyfodol.**
- **Adroddiad blynyddol sy'n crynhoi holl waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.**

Gellir gweld gwybodaeth bellach am waith y Bwrdd a chopïau o'r adroddiadau uchod ar ei wefan: www.bprgwent.cymru

Fodd bynnag, nid yw ein gwaith partneriaeth wedi'i gyfyngu i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn unig. Darperir ystod dda o wasanaethau gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, gan gynnwys:

- **Tîm datblygu'r gweithlu ar y cyd â Blaenau Gwent.**
- **Datblygwyd Gwasanaeth Eiddilwch Gwent ar y cyd â'r pedwar awdurdod lleol arall a'r bwrdd iechyd.**
- **Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar y cyd sy'n cwmparu'r holl bartneriaid yn ardal Gwent.**
- **Cynllun Cysylltu Bywydau a ddarperir ar ran chwe awdurdod lleol.**

Mae'r gefnogaeth wleidyddol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gadarn o hyd. Er gwaetha'r setliad ariannol anodd iawn i'r awdurdod, neilltuwyd cyllid ychwanegol i'n helpu i ddelio â pheth pwysau ariannol yn sgil y boblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy.

Mae Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yn aelod o dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n cyfarfod yn wythnosol i ystyried penderfyniadau allweddol ynghylch blaenoriaethau strategol a gweithredol, cyn bod y materion/penderfyniadau hyn yn mynd gerbron y Cyngor/Pwyllgorau Craffu.

Mae yna Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n aelod o Gabinet y Cyngor a hefyd yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymdeithasol gydag Uwch-reolwyr.

Mae'r Pwyllgor Craffu yn cynnwys un aelod ar bymtheg ac mae'n cyfarfod bob chwe wythnos i oruchwylio perfformiad y Gyfarwyddiaeth ac ystyried unrhyw ddatblygiadau polisi/gwasanaeth cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet.



CREU CYMUNEDAU GOFALGAR
CREATING CARING COMMUNITIES

